# Breuddwydion Bregus

## Cast

Chloe

Rosie ( hefyd yn chwarae Swyddog Heddlu)

Katie ( hefyd yn chwarae Athrawes, Mam, Storïwr)

Bethan

Mike (hefyd yn chwarae rôl athro)

Ben

## Golygfa Un

Chloe'n sefyll yn gwbl lonydd efo'i phen i lawr ar ganol y llwyfan. Katy'n wynebu cefn y llwyfan, hefyd yn gwbl lonydd.

Cast — Lager, shots a vodka mawr, yfed ag yfed a disgyn i lawr (y cast yn dawnsio o amgylch Chloe ac yn ailadrodd hyn dair gwaith)

Chloe'n dechrau cerdded ymlaen yn ara' deg heb godi ei phen. Wrth iddi edrych i fyny, y gerddoriaeth yn stopio a'r cast yn stopio dawnsio. Y cast yn edrych tuag at Chloe ac yn dechrau cyfri o 1-9. Katy yn cerdded yn araf at Chloe. Chloe yn meimio cymryd potel o dabledi o'i phoced a'u rhoi nhw yn ei cheg.

Cast — Na!

Katy — Ar yr unfed ar hugain o Ragfyr, 2009, mi wnaeth Chloe drio lladd ei hun. Ei stori hi ydi hon.

Cloch ysgol yn canu i ddynodi newid golygfa. Y cast yn symud i safleoedd newydd.

## Golygfa Dau

Rosie'n cerdded ymlaen, Chloe'n eu dilyn yn llawn edmygedd a Bethan yn llusgo y tu ôl iddyn nhw.

Rosie — Mae mam a dad i ffwrdd am wythnos gyfa'!

Chloe — Wir?! A ma' nhw wedii dy adael di ar ben dy hun yn y tŷ?!

Rosie — Do - maen nhw'n mynd bob blwyddyn - dwi'n mynd efo nhw fel arfer, ond sut fedrwn i dy adael di ar ben dy hun?!

Bethan yn gwneud ei gorau i gael sylw'r ddwy, mae hi'n chwifio'i breichiau, yn neidio o gwmpas ac yn gweiddi Ymarfer Corff!!

Chloe a Rosie yn ei hanwybyddu hi'n llwyr

Chloe Be ti'n neud pan ti ar ben dy hun ta?

Rosie Wel dwi'n cael partis – ond dim ond y bobl orau sy'n cael dŵad!! Gei di ddŵad os tisio.

Chloe O! mae hynna'n cŵl!

Rosie Mae o hefyd yn golygu bod fy nghariad i, Michael yn cael aros dros nos.

Chloe Be?! Mae o'n aros efo chdi? Pan mae dy rieni di i ffwrdd??

Rosie (Chwerthin) Yndi siŵr!

Chloe Lle mae o'n cysgu?

Rosie Efo fi

Chloe Oh yeah reit!... Da chi wedi ......ti'n gwybod?

Rosie Do siŵr! Ti ddim?

Chloe (chwerthin yn nerfus) Do.

Rosie Ti ddim naddo!

Chloe (Stopio chwerthin) Naddo.

Rosie (Trio'i chysuro hi) Wel, 'dio'm ots, ond pam ddim?

Chloe Wel, dw'i ddim wedi cael y dechrau gorau efo ..... yr unig addysg rhyw ges i erioed oedd ........

Chloe a Rosie yn rhewi – syllu i'r pellter a Michael yn dod ar y llwyfan, o'r dde.

Mike/Athro Bore da ddosbarth – croeso i'r wers addysg rhyw. Rŵan, mi ddyla' pawb wybod sut i roi condom. Reit, daliwch y fanana yn eich llaw chwith a'r condom yn eich llaw dde ond gwnewch yn siŵr bod y condom y ffordd iawn neu mi fydd yn......Ping...oh na, sori! Na, mae hwnna'r ffordd anghywir 'Ping' 'Ping' 'Ping'.

Michael yn rhedeg oddi ar y llwyfan fel pe bai o'n cael ei ymosod arno gan gawod o gondomau. Chloe a Rosie yn dadrewi.

Chloe Roedd 'na gondoms yn fflio dros bob man! Wedyn roedd na'r adeg pan nath dad drio....aeth hynny ddim rhy dda chwaith,........

Chloe a Rosie'n rhewi ac yn syllu i'r pellter. Ben yn dod ar y llwyfan, o'r chwith.

Ben/Tad Chloe Rŵan dwi'n licio meddwl am ryw fel.......mynd ar daith, tuag at Gaer er enghraifft. Mae tripiau byr yn iawn, ond mi faswn i'n cynghori yn erbyn mynd yr holl ffordd ar hyn o bryd. Os ti'n cyrraedd Queensferry, ti bendant 'di mynd rhy bell!.

Ben yn rhuthro'n chwithig oddi ar y llwyfan, Chloe a Rosie yn dadrewi.

Chloe Ar ôl y sgwrs yna doedd gen i dal ddim syniad am ryw.....na sut i fynd i Gaer!

Chloe Ti'n meddwl bod Bethan yn gwybod?

Rosie a Chloe yn edrych drosodd at Bethan sy'n ymbalfalu efo'i 'trainers' a'i llyfrau. Mae hi'n edrych arnyn nhw.

Bethan Brysiwch! Ymarfer corff mewn pum munud!

Rosie a Chloe'n wynebu ei gilydd

Gyda'i gilydd (Chwerthin) Na!

Katy'n cerdded yn gyflym ar y llwyfan

Katy Dewch ferched, mae hi bron yn naw o'r gloch – i'ch gwers ar unwaith. (Katy'n rhewi)

Chloe Pa wers oes gynnon ni?

Bethan 'Dwi 'di bod yn deud wrtha chi ers pum munud - Ymarfer Corff !

Rosie Stwffio Ymarfer Corff – dw'i newydd gael gneud fy ngwallt!

Bethan Ti bob amser newydd gael gneud dy wallt... wel, dwi'n mynd

Bethan, Rosie a Chloe yn rhewi. Katy'n cerdded drosodd at Bethan

Katy Bethan Williams, myfyriwr graddau A. Mae hi bob amser yn ei gwersi'n brydlon, bob amser yn gwneud ei gwaith cartref i safon uchel. Ond dw'i ddim yn siŵr am y Rosie Hamilton yma

Rosie Iawn, dos di. Tyrd Chloe

Chloe Lle awn ni?

Rosie Does na neb yn fy nhŷ i - mae mam a dad i ffwrdd cofia! Tyrd i feddwi!

Bethan (gollwng ei trainers) Meddwi, yn ystod amser ysgol – da chi'n gall?

Rosie Ymm... Yndan!

Genethod yn rhewi. Katy yn cerdded drosodd at Rosie

Katy Rosie Hamilton - mae hi'n dwyn gwarth ar yr ysgol. Does gen i ddim syniad sut y cafodd hi ddŵad yma. Dydw'i erioed wedi dysgu disgybl cyn waethed yn yr holl flynyddoedd dw'i wedi bod yn dysgu. Mae hi mor ddigywilydd - y diwrnod o'r blaen mi wnaeth hi ddweud wrth un o'r athrawon ei bod hi'n mynd ar ei nerfau hi!

Mae'n biti gen i dros Chloe Downes druan - mae hi'n newydd i'r ysgol - dim ond gobeithio y bydd hi'n gwneud y dewisiadau cywir!

Katy'n cerdded oddi ar y llwyfan a'r genethod yn dadrewi

| | |
|---|---|
| Bethan | Os ti isio difetha dy addysg Rosie, mae hynny i fyny i ti, ond paid â tynnu Chloe i lawr efo chdi. |
| Rosie | Bethan, ti mor boring! |
| Bethan | Chloe? |
| Rosie | Tyrd Chloe . |
| Bethan | Chloe, c'mon – yn ystod yr wythnos gynta – wir? |
| Rosie | Ei di ddim i drwbwl, dim os ti efo fi. |
| Bethan | Tyrd Chloe |
| Rosie | Chloe, tyrd |

Bethan a Rosie'n gadael y llwyfan a Chloe'n dilyn Rosie'n fuan wedyn. Bechgyn yn cerdded o du ôl y llwyfan ac yn dechrau codi cadeiriau.

| | |
|---|---|
| Bechgyn | Disgyblion y Chweched Dosbarth yn dod ar y llwyfan (Rosie, Bethan a Chloe'n dod ar y llwyfan efo'u cefnau at y gynulleidfa) |
| Mike | Haia Ben, ti'n iawn? |
| Ben | Yndw, grêt. So...be nes di dros y penwythnos? |
| Mike | Oh, roedd hi'n ben-blwydd ar Rosie - roedd hi'n 16. |
| Ben | Lleidr baban o'r crud!! |
| Mike | Ok, jyst am bod chdi heb gael cariad ers oesoedd! Pryd oedd gen ti gariad ddwytha' Ben? |
| Ben | Yeah, ok Mike! |
| Mike | Doedd hi ddim tua dwy flynedd yn ôl? Be oedd ei henw hi? Jennifer? |
| Ben | Cau dy geg! |
| Mike | (Dechrau canu) 'And they called it puppy love......'. |
| Ben | (dechrau gwylltio go iawn ac yn gweiddi) Mike! Jyst cau hi nei di! |
| Mike | Ok, dim ond tynnu dy goes di (distawrwydd mawr) Mae gynnon ni 'gig' cyn bo hir |
| Ben | (Wedi stopio gwrando arno fo) Oes. |

Mike Ti'n meddwl bysai'n syniad da ffonio Rosie ta??

Ben Bysa.

Mike Ti di pwdu wan? Stwffio hyn, dwi'n mynd i ffonio Rosie.

Rosie'n troi i wynebu'r gynulleidfa ac yn ateb ei ffôn.

Rosie Hiya babe.

Mike Hey babe, o'n i a Ben yn meddwl, mae gynnon ni 'gig' cyn bo hir - gawn ni ddŵad i tŷ chdi i bractisio?

Rosie Cewch siŵr, mae Mam a Dad i ffwrdd. Nei di brynu alcohol ar y ffordd? Does 'na'm llawer ar ôl yn y tŷ.

Mike Iawn, dim problem

Rosie OK welai di hwyrach ymlaen. Hwyl

Mike Hwyl, Caru ti!

Rosie'n troi i wynebu cefn y llwyfan a Ben a Michael yn rhewi. Katy'n dod ar y llwyfan

Katy Michael Priestley, bachgen clyfar a thalentog iawn. Mae pum cenhedlaeth o'i deulu o wedi llwyddo yn yr ysgol yma, a does gen i ddim amheuaeth y bydd o'n gwneud yr un fath.

Katy'n rhewi, Chloe a Rosie yn troi at ei gilydd

Chloe Pwy oedd 'na?

Rosie Michael.

Chloe Dy gariad di?

Rosie Ia, a dw'i mewn band efo fo.

Chloe Be?! Ti mewn band?

Rosie Yndw.

Chloe Tisio fi fynd?

Rosie Nac 'dw siŵr - a deud y gwir mi fydd yn gyfle da i ti gyfarfod Ben – mae gan ei dad o ei oil rig ei hun!.

Chloe Ga'i ffonio Bethan? Dwi'n teimlo'n ddrwg am be ddigwyddodd o'r blaen, a dwi'm isio iddi hi gael ei gadael allan.

Rosie Cei siŵr

Chloe a Rosie yn troi i wynebu cefn y llwyfan a Katy'n cerdded drosodd at Ben.

| | |
|---|---|
| Katy | Benjamin Farrell. Dydw'i ddim yn siŵr amdano fo. Mae o'n ddiog, ac mae o fel petai o'n disgwyl am rywbeth. Dwi'n meddwl ei fod o mewn band efo Michael a Rosie, ac mae o'n breuddwydio am deithio i America un diwrnod – wn i ddim pa mor bell eith o efo hynny. |

Y ffocws yn newid i fod ar Chloe

| | |
|---|---|
| Chloe | Haia. |
| Bethan | Haia. |
| Chloe | Mae Rosie mewn band ac maen nhw'n dŵad draw i'w thŷ hi mewn munud. Oni'n meddwl bysa ti'n licio dŵad hefyd? Dwi'n meddwl fydd o'n hwyl. |
| Bethan | 'Di Rosie isio i fi ddŵad go iawn? |
| Chloe | 'Mi fysa Rosie wrth ei bodd |
| Bethan | Iawn felly |
| Chloe | OK Welai di wedyn. |

Mike a Ben a disgyblion y 6ed dosbarth yn gadael y llwyfan.

<u>Golygfa 3</u>

| | |
|---|---|
| Bechgyn | (troi rownd) Gosod yr offer |
| Rosie | eisteddwch, diod |
| Genethod | Slurp... Ahh |
| Genethod | Diod |
| Bechgyn | Slurp…Ahh |
| Band | Ymarfer |
| R a M | Gitarau - chwarae |
| Ben | Canu - Ahhh |
| Girls | Cynulleidfa - Gwrandewch |
| R a M | Gitarau - Chwarae |
| Ben | Canu - Ahh |

| | |
|---|---|
| Chloe | Clapio |
| Bethan | Clap, clap, clap |
| Mike | Gitâr - ar ben ei hun |
| R a B | Dangos eu hunain |
| Chloe | Mae Ben yn gorgeous! |
| Bethan | Os ti'n deud |
| Band | Cân yn gorffen, rhoi 'bow' |
| Chloe | Sefyll a chlapio |
| Bethan | Yn meddwl eu bod nhw'n dda iawn |
| R a M | (Gwthio Ben tuag at Chloe) dyma Chloe |
| Ben | Mmm, neis iawn |
| Chloe | Cariad ar yr olwg gyntaf |
| R a M | Am lyfli (symud cadeiriau) Dêt cynta' |
| Ben | Cinio rhamantus |
| Chloe | Aww... ciwt |
| R and M | Lyfli! (symud cadeiriau) Ail ddêt, dêt dwbwl |
| Mike | Ensyniadau Rhywiol |
| Rosie | Chwerthin Uchel |
| Chloe | Teimlo'n annifyr |
| Chloe | Chwerthin yn nerfus |
| Rosie | Ensyniad rhywiol yn ôl |
| Mike | Mwy o chwerthin uchel |
| Chloe | Teimlo'n annifyr |
| Ben | Chwerthin yn nerfus |
| R a M | Mwy o ensyniadau rhywiol |
| C a B | Distawrwydd annifyr |
| R ac M | Trydydd Dêt. Llofft Ben |

Bethan, Michael a Rosie'n gadael y llwyfan

| | |
|---|---|
| Ben | Troi'r golau i lawr |
| Chloe | Ydi hi 'di mynd yn dywyll? |
| Ben | Tipyn o Westlife |
| Chloe | 'S gen ti rywbeth gwell? |
| Ben | Mint a siarad yn sebonllyd |
| Chloe | Ddim yn hoff iawn o hyn |
| Ben | Trio'i orau i'w chael hi i'r gwely |
| Chloe | Oh, mae hi'n hwyr |
| Cast | Clychau larwm yn canu? |
| C a B | Na |

<u>Golygfa Pedwar</u>

Cyflwynwyr 1a2 Helo a Chroeso i 'Rhyw Fath o Ornest!'

| | |
|---|---|
| Cyflwynydd 1 at y | Y nod ydi bod pob ymgeisydd yn llwyddo mewn nifer o dasgau er mwyn cyrraedd 'ffrwyth gwaharddedig' |
| Rosie a Chloe | Ooooooh! |
| C 2 | Y cystadleuydd cyntaf heno ydy bachgen o Rhyl – rhowch groeso i Ben. Helo Ben, sut wyt ti heno? |
| Ben | Da iawn diolch, gwych. |
| C.2 | Wyt ti'n mynd i ennill heno? |
| Ben | Wel yndw siŵr! |
| C.2 | A pwy ydi'r hogan sbesial heno? |
| Ben | Dw'i di dŵad a nghariad i, Chloe. |
| C1 a 2 | Aaaah, neis! |
| C.1 | Mae ein hail gystadleuydd ni heno hefyd yn dŵad o Rhyl - rhowch groeso cynnes i Michael. Helo Michael, sut wyt ti heno? |
| Mike | Dwi'n teimlo'n grêt diolch |

C.1 Wyt ti'n teimlo'n hyderus y medri di'n ennill?

Mike Wel wrth gwrs!

C.1 A pwy sydd wedi dod yma efo chdi heno?

Mike Rosie, fy nghariad i.

C1a2 Aaaah lyfli

C.2 Iawn. Tasg un am y pwynt cynta'. Be' fysa chi'n ddeud wrth gyfarfod hogan am y tro cyntaf ac yn trio cael ei sylw hi? Ben?

Ben "Tisio mynd hannar ar fabi efo fi?"

C.1 Uumm - iawn. Rŵan - Michael.

Mike "Ydi'r haul wedi dŵad allan neu chdi sydd newydd wenu?"

C.1 Ac mae'r pwynt o'r rownd yna yn mynd i Michael - da iawn Michael. A'r ail dasg am yr ail bwynt heno. Da chi wedi cael sylw'r ferch, rŵan sut 'da chi'n mynd i'w chael hi i roi ei breichiau amdano' chi?

C.2 Yn gynta', Ben

(Ben yn methu)

C.1 Sori Ben – dim digon da . Nesa, Michael.

(Mike yn llwyddo)

P.1 Da iawn Michael.

P.2 Am y trydydd pwynt, sut fysa' chi'n dwyn cusan slei ganddi hi. Ben?

(Ben yn methu)

C.1 Dim digon da yn anffodus Ben. Rŵan - Michael.

Mike Rosie, be di hwnna ar dy wefusau di? (rhoi sws iddi) Oh, fi!

C.1 Da iawn Michael. Pwynt arall i ti. Reit, am y pwynt olaf heno rhaid i bob cystadleuydd drio cael y ffrwyth gwaharddedig gan eu cariad. OND maen nhw ar raff 'bungee' - felly fydd hi ddim yn hawdd. Iawn ferched, i'ch safleoedd plîs.

C.2 Pum eiliad yr un: 5 4 3 2 1 ewch!

(Siarad cyffredinol wrth i'r gêm fynd yn ei blaen, Mike yn ennill)

C.1 Da iawn Michael!

C.2 Tyrd draw Ben. Roedda' ti'n gneud mor dda. Be ddigwyddodd?

| | |
|---|---|
| Ben | Wel - roedd rhywun yn gwrthod ymuno yn y gêm 'doedd! Eniwe, roedd fy mungee i'n llai na'i un fo, a'i bai hi oedd o! |
| C.1 | Iawn... Michael sut mae'n teimlo i fod yn enillydd? |
| Mike | Ma'n teimlo'n wych! |
| C.1 | Ac wyt ti'n teimlo'n falch o dy gariad? |
| Rosie | Yndw, mor falch. |
| C.1 | A sut fyddi di'n dathlu heno? |
| M a R | Wel… |
| C.1 | Edrychwch ar yr amser! Ymunwch â ni eto'r wythnos nesa, a cofiwch..... |
| Pawb | Defnyddiwch Gondom! |

<u>Golygfa Pump</u>

Rosie, Chloe a Bethan yn eistedd ar y llwyfan

| | |
|---|---|
| Chloe | Nath Ben ddŵad i nhŷ fi noson o'r blaen. |
| Rosie | A?...... be ddigwyddodd? |
| Chloe | Dim byd |
| Rosie | Doedd gynnoch chi ddim condoms? Bethan – dos i nôl 'y mag i, mae gen i loads |
| Chloe | Na, 'dwi'm yn barod |
| Bethan | Chloe, mi fyddi di'n barod pan ti'n barod |
| Rosie pan | Mi fysa ti'n deud hynny – os 'di hi'n gwrando arna ti fydd hi dal heb neud dim byd fydd hi'n sixty! |
| Bethan | Nei di gau dy geg |
| Rosie | Bethan, sori! Ond wir Chloe, os ti'm yn gwneud rywbeth reit fuan, fydd o di cael digon ac mi eith o. |
| Chloe | Dwi'm isio'i golli fo! Be na'i? |
| Bethan | Chloe, os ydi o'n caru chdi go iawn, neith o aros tan ti'n barod. |
| Rosie | Ma' hynna'n llwyth o rwtsh! |

Katy'n dod ar y llwyfan fel mam Chloe

Mam Chloe Helo genod, 'da chi'n cael amser da?

Chloe Oh mam – dos o 'ma

Mam Chloe Da' chi isio diod neu rywbeth?

Rosie Mrs Downes, ga'i ofyn rwbath i chi?

Katy Cei siŵr, unrhyw beth .

Rosie Faint oedd eich oed chi pan wnaethoch chi neud .......da chi'n gwybod, efo bachgen, y tro cynta'?

Bethan (methu coelio be' mae Rosie newydd ddeud) Rosie, fedri di'm gofyn hynna!

Mam Chloe Na, ma'n iawn Bethan, wir. Wel, o'n i'n 19 ac efo tad Chloe oedd o.

Chloe Mam, ma' hynna'n disgusting. Plîs dos o 'ma

(seibiant)

Bethan Diolch am adael i ni 'neud ein hunain yn barod yma

Mam Chloe Dim problem o gwbl siŵr Bethan.

Chloe Mam!

Katy Iawn, dwi'n mynd, dwi'n mynd. Gobeithio gewch chi noson dda genod.

Mam Chloe'n gadael y llwyfan

Rosie Pam na nei di roi amser da i Ben heno?

Chloe Amser da? Rosie, dwi'm yn barod i neud petha' efo fo eto.

Rosie Dim rhaid i chdi fynd yr holl ffordd – jyst rho rywbeth bach iddo fo i, ti'n gwbod.... i gadw fo'n hapus!

Bethan Rosie! Ddyla' genod ddim teimlo bod rhaid iddyn nhw neud petha jyst i blesio hogyn sdi! Mi ddyla' fo fod yn rhywbeth sbesial, dim rhywbeth i'w roi rywsut rywsut fel tasa fo'n ddim byd!

Rosie Oh dydi o'm byd siŵr Bethan! Fedra i'm meddwl am neb sy' ddim yn neud o. Da ni yn y twenty first century. Os da ni'n defnyddio condoms fedra i'm gweld be' di'r broblem.

Chloe 'Dwi'm yn gwbod....

Bethan Chloe, os ti'm isio, deud na

Rosie Yli, fedri di ddeud na … neu fedri di jyst deud ia....... a gweld nad ydi o'n ddim byd go iawn.

Bethan a Rosie yn rhewi

Chloe Dwi'n caru Ben a 'dw isio bod efo fo am byth, ond 'dwi'm yn barod i neud o eto. Oes 'na rwbath o'i le efo fi am bod fi ddim isio? Mi fyddwn ni efo'n gilydd am byth, dwi'n siŵr o hynny.....ond dwi dal ddim isio gneud eto.

'Sweet Dreams' Annie Lennox yn dechrau chwarae i ddynodi newid golygfa. Y bechgyn yn cerdded ar y llwyfan a Bethan a Chloe yn helpu i newid y set.

<u>Golygfa Chwech</u>

Cast (gwneud cylch a dechrau llafar ganu) lager, shots a vodka mawr, yfed ag yfed a disgyn i lawr

Y cast i gyd yn dechrau dawnsio ac yn cerdded o gwmpas yn sigledig fel pe baen nhw wedi meddwi. Rosie, Michael, Ben a Chloe yn dawnsio yn ymyl ei gilydd a Ben yn dynwared be' mae Rosie a Michael yn ei wneud.

Ben Chloe.. sbïa arnyn nhw (pwyntio at Rosie a Michael) a sbïa arna' ni

Chloe Be?

Ben Chloe.. sbïa arnyn nhw, a sbïa arna' ni!

Chloe Ok, 'nawn ni fod yr un fath a nhw ta'

Chloe a Ben yn dawnsio – ond Ben yn gwneud symudiadau rhywiol awgrymog y tu ôl iddi hi.

Mike Hei! Dos amdani boi!

Chloe Be' ti neud?

Ben Ah c'mon Chloe. Tyrd i nôl diod

Ben a Chloe'n cerdded yn sigledig tuag at yr ochr, wedyn Rosie a Michael yn dechrau siarad

Rosie Ma' Ben bendant yn mynd i gael ei ffordd ei hun heno!

Michael Be' ti feddwl?

Rosie Efo Chloe!

Michael Da iawn fo!

Rosie Wel gawn ni weld sut fydd o fory.

Chloe a Ben yn cerdded yn sigledig yn ôl tuag at ganol y llwyfan. Chloe'n amlwg wedi meddwi a'r ddau'n methu siarad yn iawn

Ben Cymera ddiod arall - dyma chdi (pasio diod arall iddi hi)

Chloe Wyt ti'n trio'n meddwi fi?

Ben Na, dim ond un neu ddau ti 'di gael

Chloe Ti'n siŵr ?

Ben Yndw, rŵan tyrd i ddawnsio

Ben a Chloe'n dawnsio eto, a Ben yn gwneud yr un peth ag o'r blaen.

Mike Ha ha! Mae o wrthi eto!

Chloe Ben paid!

Ben Be di dy broblem di?

Chloe 'Dwi jyst ddim isio.

Ben yn cychwyn cerdded i ffwrdd

Chloe Ben, na, aros.

Ben (Ben yn gafael yn sydyn ac yn dynn yng ngên Chloe). Gwranda Chloe, 'sa ti'n fy ngharu 'sa ti'm yn bod fel hyn.

Ben yn gwthio Chloe o'r ffordd ac yn gadael (cerddoriaeth yn tawelu)

Chloe Doeddwn i ddim wedi meddwl 'i 'neud o mor flin. Dim ond chwarae o gwmpas oedd o. Mi ddylwn i fod wedi gadael iddo fo neud. Rhaid i mi ffeindio fo. Rhaid i mi ymddiheuro. Ben, dwi'n sori.

<u>Golygfa Saith</u>

Ben yn cerdded yn ôl ar y llwyfan gyda gweddill y cast ac maen nhw'n gwneud pedwar pwynt o amgylch Ben a Chloe

Ben Oh, 'na ti Chloe. Dwi'n siŵr nei di feddwl am ryw ffordd o ddeud sori wrtha' i.

'Sweet Dreams' Marilyn Manson yn chwarae, y cast i gyd heblaw Ben yn disgyn yn araf i'r llwyfan ac yn gorwedd ar y llawr gan wingo fel pe baen nhw mewn poen dirfawr. Ben yn plygu'n araf ac yn codi Chloe i fyny. Mae o'n codi ei gên ac yn gwthio'i gwallt i ffwrdd oddi ar ei hwyneb. Chloe'n troi i redeg i ffwrdd ond mae o'n ei thynnu hi'n ôl. Yna mae o'n gafael mewn eitem o ddillad Chloe ac yn ei dynnu'n araf wrth iddo gerdded o'i hamgylch, yna'n agor ei felt ac yn gwthio Chloe i lawr yn araf ac yna'n gorwedd ar ei phen. Y goleuadau'n mynd i lawr, y cast yn gadael y llwyfan a phan ddaw'r goleuadau'n ôl i fyny, mae Chloe'n ceisio gafael yn ei dillad ac yn crio.

**Popeth yn mynd yn ddu**

Golygfa Wyth

Ben 'Chloe a fi di neud o neithiwr - cael gwared ar y platiau V o'r diwedd!

Mike Da iawn ti boi!.

Ben Diolch!

Rosie a Chloe yn cerdded ar y llwyfan.

Chloe Rosie, dw'i angen siarad efo chdi... (Mae hi'n gweld Ben) Rhaid i mi fynd (Rosie yn gafael yn Chloe)

Rosie Na, mae Michael 'di sgwennu cân newydd. Gei di wrando arni.

Rosie'n gwthio Chloe at gadair wedyn yn cerdded yn ôl at y bechgyn ac maen nhw'n dechrau canu. Mae Chloe'n syllu i'r pellter.. Mae'r gân yn berthnasol iawn ac yn ei hatgoffa o'r hyn ddiswyddodd. Chloe ddim yn gallu aros yno ddim hirach ac yn rhedeg allan. Rosie'n troi rownd ac yn ei dilyn. Michael yn stopio chwarae ac yn edrych o gwmpas am Rosie a Chloe.

Mike Ben, oes 'na rywbeth yn bod ar Chloe?

Ben Na, na, ma'i 'di bod yn bitch flin yn ddiweddar, 'na'r cwbl.

Mike 'Dw'i 'rioed 'di gweld hi fel hyn o'r blaen, dyna pam dwi'n gofyn

Ben Mae'n siŵr bod hi'n addasu i fywyd ....wel, ti'n gwybod, neithiwr oedd y tro cynta' iddi hi.... (chwerthin yn nerfus).

Mike Pwy ddechreuodd y peth ta?

Ben Eh?

Mike Pwy ddechreuodd y peth - neithiwr?

Ben Wel, fi ma' siŵr.

Mike O reit dda!

Ben Diolch Mike

Mike Ond mae'n bosib ella bod chdi 'di gneud rhywbeth o'i le ........

Ben Be? (yn nerfus)

Mike Jyst deud dw'i ella bod chdi di gneud rhywbeth o'i le neithiwr iddi hi fod fel mae hi heddiw.

Ben Fel be – be ti'n feddwl?

| | |
|---|---|
| Mike | Jyst meddwl … ella bod chdi'n rubbish yn gwely neu rywbeth - jôc! |
| Ben | Oh, reit… ia |
| Mike | Pam? Be oedda' ti'n feddwl? |
| Ben | Oh dim byd, dim byd |
| Mike | Come on .. ma' raid bod chdi di deud hynna am ryw reswm. |
| Ben | Wel, pan nes i weld chdi ar Rosie yn y parti neithiwr, nes i ddeud wrth Chloe bod fi isio i ni fod .... ti'n gwbod.......yn agosach. |
| Mike | So ddaru chdi gael rhyw efo hi? Ben, ti'n gwbod bod fi a Rosie'n mynd efo'n gilydd am dipyn o amser cyn i ni neud dim byd 'dwyt? |
| Ben | Wel, 'roedda' ni'n dau'n yfed – nes ti weld pa mor ddrwg oedd hi. |
| Mike | Do (seibiant) Ond ti'n siŵr bod hi isio gneud, wyt? |
| Ben | (methu cyfaddef) Wel… dim go iawn. |
| Mike | Cos, ti'n gwbod fel mae hi dyddia' yma. Yr hogan yn gorfod rhoi 'cydsyniad' a bob dim, ti'n gwbod, deud yn hollol glir bod hi isio – pawb yn dallt ei gilydd ..... .......dw'i jyst yn deud..... ella fyddan nhw'n dy gyhuddo di o'i rapio hi neu rwbath nesa' (chwerthin). |
| Ben | (Ddim yn cymryd hyn fel jôc) Ti o ddifri? |
| Mike | Sori…'o ni'm yn trio… |
| Ben | Ti'n fy nghyhuddo i o fod yn 'rapist'? Dyna be' ti'n ddeud? |
| Mike | 'Dwi'm yn dy gyhuddo di o ddim byd. 'Dw'i jyst yn deud fedri di fynd i drwbwl am betha' fel hyn. |
| Ben | (Gafael yn Mike) Mike! Dydw'i ddim yn rapist! |
| Mike | Ok! |

Ben yn hitio Mike ac yn gadael. Rosie'n dod yn ôl, gweld Mike yn gafael yn ei foch.

| | |
|---|---|
| Rosie- | Michael? Ti'n iawn |
| Mike | Yndw, yndw, dwi'n ok |
| Rosie | Be' sy'? |
| Mike | Rosie, 'dio'm ots |
| Rosie | Mae'n amlwg bod o ots. |

Mike Na Rosie, 'di o ddim, wir.

Rosie Ti 'di cael ffrae efo Ben?

Mike Na, jyst gad fi fod

Rosie Michael, deud wrtha' fi be' sy'n bod, rŵan!

Mike Rosie, ti wir ddim isio gwbod.

Rosie Yndw, 'dw'isio gwbod.

Mike Na, ti ddim, go iawn.

Rosie Mae'n amlwg bod chdi'n ypset am rwbath. Deud wrtha'i.

Mike Rosie, dio'm ots.

Rosie Mae o ots. (seibiant) Michael, dwi'n deud bob dim wrtha' ti (seibiant) Deud wrtha'i! Michael! Edrycha arna'i. 'Sa ti'n fy ngharu i, fysa ti'n deud.

Mike Y peth ydi, jyst … 'Dwi'n meddwl ella bod Ben … ella bod o 'di rapio Chloe neithiwr

Rosie (methu credu) Be?

Mike Mae o newydd ddeud wrtha i

Rosie Am be ti'n siarad dŵad? Paid a bod yn wirion. Jyst dos o 'ma Michael!

Michael yn gadael y llwyfan a Chloe'n dod ymlaen

Chloe Ydi'r ddau 'di mynd rŵan?

Rosie Do. Chloe, fedri di ddeud unrhyw beth wrtha'i, ti'n gwbod hynny, dim ots pa mor ddrwg ydi o.

Chloe Ma'n OK Rosie

Rosie Y peth ydi, ma' Mike newydd ddeud y peth mwya' stupid - deud bod Ben 'di rapio chdi. Peth od i ddeud 'de?

Chloe Ia, mae hynna yn od dydi?

Rosie So 'nath o ddim?

Chloe Naddo Rosie, nath o ddim ....dyna be' tisio glywed ia?

Rosie Ia siŵr, dyna be 'dw isio glywed.

Chloe Ti'm isio meddwl y bysa dy 'annwyl Ben' di byth yn medru'n rapio fi nag wyt?

Rosie Annwyl Ben? Chloe, chdi 'di'n ffrind gora' fi, ond 'dw'i di 'nabod Ben erioed, a 'di o jyst ddim yn rywbeth fysa fo'n 'neud.

Chloe (Troi i wynebu Rosie) Wel mi ddaru fo! A lle oedda' ti pan ddigwyddodd o? Ffrind gora'? Nes di 'rioed fy nerbyn i go iawn. Roedda' ti jyst isio ngwneud i'n rywbeth nad ydw'i ddim, a sbïa be ddigwyddodd!

Rosie Paid ti a meiddio rhoi'r bai arna' fi am hyn!

Chloe'n gadael y llwyfan

Rosie Chloe, aros!

**Popeth yn mynd yn dywyll**

Golygfa Naw

Mae'r olygfa hon yn llawn o egni. Katy yn sefyll ar ganol y llwyfan yn gwneud 'stretches'

Mam Chloe Ar y bore pan ges i wybod be' oedd wedi digwydd, ro'n i'n gwneud fy 'stretches' fel dwi'n neud bob bore pan glywais gnoc ar y drws. Doeddwn i ddim yn disgwyl neb. Mi es i ateb y drws. (Rosie'n cerdded ar y llwyfan). Oh helo Rosie, ti'n iawn? Tyrd i mewn, mae'n oer. Sori am y llanast – 'dw'i ddim wedi gwneud y gwaith tŷ eto. Wyt tisio diod?

Rosie Na…

Mam Chloe (yn ei hanwybyddu) Mae gen i de, coffi, coke, diet coke, coke zero, neu os wyt tisio rhywbeth poeth ...mae gen i ......

Rosie (yn trio torri ar draws) Mrs Downes, dw'i di dŵad yma i siarad am Chloe……

Mam Chloe Siocled poeth. Mae gen i hyd yn oed de gwyrdd efo afal pîn. Neu skinny latte - o edrych arna ti i fyswn yn deud mai skinny latte fysa ti'n licio....

Rosie Plîs gwrandewch arna'i Mrs Downes.

Mam Chloe Be 'sgen ti i ddeud wrtha'i am Chloe felly?

Rosie Dydi hi ddim rhy dda ar hyn o bryd a deud y gwir

Mam Chloe (Yn ei hanwybyddu) Dydw'i ddim yn licio gofyn gormod o gwestiynau i Chloe, dwi'm isio iddi hi deimlo mod i'n busnesu.

Rosie Mrs Downes?

Mam Chloe Blah blah blah blah blah blah

Rosie Plîs?

Katy Blah blah blah blah blah

Rosie- Mae Chloe wedi cael ei threisio! (mam Chloe yn stopio siarad ac yn sefyll yn stond)

Katy Be? Be' ti'n feddwl mae hi 'di cael ei threisio? Gan pwy?

Rosie Ei chariad

Katy Cariad? Does ganddi hi ddim cariad.

Rosie Dwi' meddwl bod well i mi fynd

Katy Doeddwn i'm yn gwybod bod ganddi hi gariad.... fi ydi ei mam hi, 'dw'i fod i wybod y pethau 'ma.. dw'i fod i'w hamddiffyn hi rhag pethau fel hyn....fy mabi bach i...wedi cael ei threisio. Rhaid i mi ffeindio Chloe.

Golygfa Deg

Cloch drws yn canu a Rosie'n dod ar y llwyfan fel Swyddog Heddlu. Katy a Rosie'n meimio cael sgwrs, Chloe'n dod ar y llwyfan.

Chloe Helo Mam, 'dw'i adra

Mam Chloe Chloe?

Chloe (Edrych ar y swyddog) Mam? Be sy?

Mam Chloe Mae Rosie wedi bod yma, mae hi wedi deud bob dim wrtha'i.

Chloe Be' ti di neud?

Mam Chloe'n gwneud i Chloe eistedd i lawr. Chloe ddim yn gallu dweud dim

Swyddog Helo Chloe, P.C Owens 'dw'i o'r orsaf leol. Dwyt ti ddim mewn trwbl o gwbl. Mae dy fam wedi deud popeth wrtha'i, ond 'dw'i angen i ti ddeud wrtha'i be ddigwyddodd yn dy eiriau dy hun. Mi fedra'i ofyn i swyddog sydd wedi cael hyfforddiant arbennig i ddelio efo pethau fel hyn i gysylltu efo chdi os wyt tisio - mi gei di bob help a chefnogaeth.

Mam Chloe Chloe cariad, plîs . ....

Chloe Mam, fedra'i ddim. Mae o'n fy ngharu i.

Mam Chloe Dydi o ddim yn dy garu di! Os 'di o wedi gwneud hyn i ti, meddylia am yr holl enethod eraill fydd' fo'n gallu gwneud yr un peth iddyn nhw. Plîs Chloe..... deud wrth y swyddog......i mi?

Chloe Ok Mam.

Golygfa Un ar ddeg

Katy yng nghanol y llwyfan. Y cast wedi'u gwasgaru ar draws y llwyfan. Chloe a Ben yn nhu blaen y llwyfan – un ar un ochr a'r llall ar yr ochr arall. Chloe ar ei gliniau efo'i phen i lawr a Ben yn sefyll efo'i ben i fyny.

Katy (Cerdded at Chloe. Wrth i Katy siarad, Chloe'n dechrau codi). Roedd Chloe'n ddewr ac yn gryf, ac efo help ei theulu a'i ffrindiau, a swyddog heddlu wedi'i hyfforddi'n arbennig, daeth drwyddi.

Katy (Cerdded drosodd at Ben ac wrth i Katy siarad, Ben yn dechrau penlinio'n araf. Cafodd Ben ei arestio a'i gyhuddo o drais rhywiol. Cafodd ei garcharu mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc a rhoddwyd ei enw ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw. Am fod ganddo gofnod troseddol, chafodd o ddim teithio i America fel yr oedd o wedi gobeithio. Pan ddaeth o allan o'r carchar, roedd Ben yn 21 oed ac er bod amser hir wedi mynd heibio, wnaeth neb byth anghofio be' wnaeth o.

Katy (Fel petai hi'n ôl yn yr olygfa gyntaf eto) Ar yr unfed ar hugain o Ragfyr 2009, mi wnaeth Chloe drio lladd ei hun.

Pawb Stop!

Katy Ond daeth drwyddi, dewisodd fyw. (Bethan a Rosie yn dadrewi ac yn mynd drosodd at Chloe) Mae hi rŵan yn paratoi i fynd i'r Brifysgol efo Rosie a Bethan.

Katy (Michael yn dadrewi) Mae Michael yn teithio o amgylch America efo'i fand. Mae o'n galw i weld ei hen ffrindiau o dro i dro. (Michael yn cerdded at Rosie, Chloe a Bethan). Wel - ar wahân i un (Pawb yn edrych drosodd at Ben)

**Popeth yn mynd yn ddu**